ADRODDIAD SENEDD YR YSGOL - GWANWYN 2025

SCHOOL PARLIAMENT REPORT - SPRING 2025



LLAIS LLANTRISANT *LLANTRISANT VOICE*

Mae aelodau'r pwyllgor yn parhau i gwrdd er mwyn dewis Hawl y Mis. Hawl y Mis ar gyfer mis Mawrth yw Hawl #16 - "Mae gen i hawl i gadw rhai pethau'n breifat." Braf iawn oedd gweld nad oedd un sylwad yn y bocsys sylwadau yr wythnos hon wrth i'r swyddogion eu hagor nhw. Penderfynodd y swyddogion bod hyn yn golygu bod pawb, ar y cyfan, yn hapus! Yn dilyn trafodaethau Tymor yr Hydref, mae'r ysgol wedi cysylltu â Stuart Whiffin yn UNICEF i nodi ein diddordeb i ddechrau ar y broses o fod yn 'Ysgol sy'n Parchu Hawliau'. Rydym yn edrych ymlaen yn fawr at dderbyn ymateb i'n hebost. Cynllun arall sydd wedi'i lansio yn yr ysgol yn ddiweddar yw 'Pencampwyr Pawb'. Sefydlwyd saith pwyllgor a fydd yn canolbwyntio ar gyraddoldeb ar draws nifer o feysydd: Lles, Gwrth-Hiliaeth, Cyfleoedd Cyfartal ar sail Rhywedd, Gwrth-Fwlio, Hawliau i Bawb a LGBTQ+, Cymreictod ac Etifeddiaeth a Pharchu ein Planed - meysydd sydd yn cyd-fynd â phwyllgorau'r Senedd a gwaith bob dydd yr ysgol. Mae aelodau'r pwyllgor yn awyddus iawn i gynnal gwasanaeth ysgol gyfan i drafod eu gwaith nhw felly trefnwn i hyn ddigwydd cyn diwedd Tymor y Gwanwyn.

The committee members continue to meet in order to choose the Right of the Month. The Right of the Month for March is Right #16 - "I have a right to keep some things private." It was good to see that there was not a single comment in the comment boxes this week as the members opened them. The officers decided that this meant that everyone was, on the whole, happy! Following the Autumn Term discussions, the school has contacted Stuart Whiffin at UNICEF to indicate our interest to begin the process of being a 'Rights Respecting School'. We are very much looking forward to receiving a response to our email. Another scheme that has recently been launched at the school is 'Pencampwyr Pawb'. Seven committees have been established which will focus on equality across a number of areas: Welfare, Anti-Racism, Equal Opportunities on the basis of Gender, Anti-Bullying, Rights for All and LGBTQ+, Welsh Identity and Heritage and Respecting our Planet - areas which link up with the Senedd's committees and the everyday work of the school. The committee members are very keen to hold a whole school assembly so we shall ensure that this is arranged before the end of the Spring Term.



DINASYDDION DOETH *WISE CITIZENS*

Y tymor yma rydym wedi cymryd rhan yn her ailgylchu cardiau Nadolig Rhondda Cynon Taf. Er na ennillon ni'r gystadleuaeth, llwyddon ni i gasglu eitha tipyn o gardiau Nadolig. Mae'r Dinasyddion Doeth wedi bod yn brysur yn hybu her diweddaraf Sir Rhondda Cynon Taf sef casglu hen fatris. Rydym ar wedi casglu rhyw 60kg y mis ar gyfartaledd ac 121.90kg o fatris wedi ailgylchu hyd yn hyn. Mae'r ymgyrch yn rhedeg o fis Tachwedd 2024 hyd at fis Mai 2025, felly mae'r Dinasyddion Doeth yn brysur yn annog yr ysgol gyfan i gasglu gymaint o fatris a sy'n bosibl. Rydym yn cydweithio ar brosiect gydag Maint Cymru er mwyn ymchwilio faint o ddefnyddio soy ac olew palmwydd sydd yn cynhwysion bwydydd cinio ysgol. Mae'n brosiect sydd yn dipyn o her ar gyfer yr ysgol gyfan, gyda blynyddoedd 5 a 6 yn arwain y prosiect. Rydym wedi mwynhau croesawu Deborah a Hellen o Uganda i'r ysgol ac wedi dysgu am sut mae Maint Cymru a Llywodraeth Cymru wedi cefnogi prosiect tyfu coed yn Uganda. Rydym wedi plannu coeden ar dir yr ysgol er mwyn nodi pwysigrwydd yr achlusyr.

This term we have taken part in the Rhondda Cynon Taf Christmas card recycling challeng. Although we did not win the competition, we managed to collect quite a few Christmas cards. The Wise Citizens have been busy promoting Rhondda Cynon Taf council's latest challenge which is to collect old batteries. We have collected about 60kg per month on average and 121.90kg of batteries have been recycled so far. The campaign runs from November 2024 until May 2025, so the Wise Citizens are busy encouraging the whole school to collect as many batteries as possible. We are collaborating on a project with Size of Wales in order to investigate how much soy and palm oil are used in school lunch ingredients. It is a challenging whole school project, with years 5 and 6 leading the project. We have enjoyed welcoming Deborah and Hellen from Uganda to the school and learnt about how Size of Wales and the Welsh Government have supported a tree growing project in Uganda. We have planted a tree on the school grounds to mark the importance of the event.

Y CRIW CYMWYNASGAR *THE HELPING HANDS*

Y tymor yma, mae amserlen wythnosol fel bod plant Blwyddyn 6 yn cael cyfle i helpu a chymdeithasu yn y Gymraeg gyda phlant Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 ar yr iard. Mae'r Criw Cymwynasgar newydd gymryd cyfrifoldeb dros osod gemau ar yr iard gan fod plant y Pwyllgor Ysgolion Iach yn canolbwyntio ar rheolaeth y siop ffrwythau. Rydw i am baratoi llyfryn gemau buarth ar gyfer plant blwyddyn 6 i ddefnyddio ar yr iard. Mae aelodau o'r Criw Cymwynasgar y tymor yma hefyd wedi bod yn helpu mynd a phlant dosbarth Derbyn draw i'r siop ffrwythau amser chwarae.

This term we have a weekly timetable for Year 6 pupils to help, socialise in Welsh with reception, year 1 and 2 pupils on the yard. The Helping Hands Committee have just taken over responsibility for setting up games on the yard so that the Healthy Schools Committee can focus on managing the fruit shop. I am going to prepare a booklet of yard games for year 6 pupils to use on the yard. Members of the Helping Hands Committee have also been helping to take the reception children over to the fruit shop at play time.

YSGOLION IACH *HEALTHY SCHOOLS*

Ers tymor yr Hydref rydym wedi bod yn brysur iawn yn gweithio ar syniadau newydd i hybu iechyd a lles yn ein hysgol. Rydym wedi parhau i oruchwylio'r defnydd o'r offer gemau gwych a ddarparwyd yn garedig gan y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon. Mae hyn wedi helpu i sicrhau bod pob disgybl yn cael mynediad i chwarae hwyliog a gweithgar yn ystod amser egwyl. Fodd bynnag, gan ein bod wedi bod yn gweithio ar brosiect newydd cyffrous yn ddiweddar, penderfynwyd trosglwyddo'r cyfrifoldeb hwn i'r Criw Cymwynasgar. Mae hyn wedi ein galluogi i ganolbwyntio ein hymdrechion ar ddatblygu ac agor ein siop ffrwythau ein hunain.
Dros y misoedd diwethaf, rydym wedi cynnal cyfarfodydd rheolaidd i gynllunio agoriad y siop. Cyn agor, gwnaethon ni ymchwil i gasglu barn rhieni ar y syniad. Fe wnaethom ni greu a dosbarthu holiaduron, yn gofyn i rieni a oeddent yn cefnogi'r siop ffrwythau, faint y byddent yn fodlon talu am ffrwythau, a pha fathau o ffrwythau yr hoffai eu plant eu prynu. Roedd yr adborth a gawsom yn hynod ddefnyddiol ac yn arwain ein camau nesaf.
I hysbysebu'r siop, rydym ni wedi bod yn gweithio'n galed i greu posteri llachar i annog disgyblion i ymweld. Fe wnaethom hefyd gynnal ymchwil ar brisiau ffrwythau, gan gymharu gwahanol siopau i sicrhau y gallem gynnig prisiau fforddiadwy tra'n dal i wneud elw bach. Helpodd hyn ni i ragweld faint y gallem ei ennill a sut y gallem wario'r arian ar ein hysgol.
Ar ôl wythnosau o gynllunio, agoron ni'r siop tair wythnos yn ôl. Mae wedi bod yn llwyddiant mawr hyd yn hyn, gyda llawer o ddisgyblion yn mwynhau byrbryd iachus yn ystod amser egwyl. Rydym yn gobeithio bydd y siop yn parhau i fod yn llwyddiant.
Gyda'r elw rydym wedi'i wneud, rydym yn bwriadu prynu offer newydd a fydd o fudd i bob disgybl ac yn helpu i hybu iechyd a lles. Ar hyn o bryd rydym yn trafod syniadau ar gyfer beth i'w brynu a byddwn yn parhau i weithio'n galed i gael effaith positif ar gymuned ein hysgol.

Since the Autumn term we have been very busy working on new ideas to promote health and well-being in our school. We have continued to supervise the use of the fantastic games equipment kindly provided by the PTA. This has helped ensure that all pupils have access to fun and active play during break times. However, as we have recently been working on an exciting new project, we decided to pass this responsibility over to the Criw Cymwynasgar. This has allowed us to concentrate our efforts on developing and launching our very own fruit shop.
Over the last few months, we have held regular meetings to carefully plan the shop's opening. Before launching, we conducted thorough market research to gather parents' opinions on the idea. We created and distributed questionnaires, asking parents whether they supported the fruit shop, how much they would be willing to pay for fruit, and what types of fruit their children would like to buy. The feedback we received was incredibly helpful and guided our next steps.
To promote the shop, we worked hard to design bright and eye-catching posters to encourage pupils to visit. We also conducted research on fruit prices, comparing different suppliers to ensure we could offer affordable prices while still making a small profit. This helped us predict how much we could earn and how we could reinvest the money back into the school.
After weeks of planning, we were thrilled to officially open our fruit shop three weeks ago! It has been a fantastic success so far, with many pupils enjoying a healthy snack during break times. We are hopeful that the shop will continue to thrive and become a long-term addition to our school.
With the profits we have made, we plan to purchase new equipment that will benefit all pupils and help promote health and well-being. We are currently discussing ideas for what to buy and will continue working hard to make a positive impact on our school community.



Y CRIW DIGIDOL *THE DIGITAL CREW*

Mae'r Criw Digidol wedi bod yn gweithio'n galed i gefnogi amgylchedd dysgu digidol yr ysgol, gan sicrhau bod yr offer TGCh yn cael ei gynnal a'i ddefnyddio'n effeithiol. Fel rhan o'u cyfrifoldebau, maent wedi cymryd perchnogaeth o fonitro dyfeisiau yn y dosbarthiadau, gan sicrhau bod yr holl offer yn cael ei ofalu'n dda, ei ddychwelyd i'r lleoliadau cywir, a'i osod ar y gwefrydd ar ôl ei ddefnyddio. Mae eu hymroddiad wedi helpu i wella effeithlonrwydd ac argaeledd technoleg i'r holl ddisgyblion.



Yn ogystal â hyn, mae'r Criw Digidol wedi dangos menter ac arweinyddiaeth trwy gynllunio a lansio clwb cyfrifiaduron, a fydd yn dechrau ar Fawrth 27 yn ystod amser cinio. Bydd y clwb hwn yn canolbwyntio ar ddatblygu sgiliau codio a datrys problemau, gan roi cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion wella eu cymhwysedd digidol mewn amgylchedd cefnogol a hwyl. Mae eu brwdfrydedd a'u hymrwymiad i hyrwyddo dysgu digidol yn cael effaith gadarnhaol ledled yr ysgol, ac mae eu hymdrechion yn haeddu canmoliaeth fawr.

The Criw Digidol have been working diligently to support the school's digital learning environment, ensuring that ICT equipment is well maintained and used effectively. As part of their responsibilities, they have taken ownership of monitoring devices in classrooms, ensuring that all equipment is looked after, returned to the correct locations, and placed on charge after use. Their dedication has helped to improve the efficiency and availability of technology for all pupils.

In addition to this, the Criw Digidol have demonstrated initiative and leadership by planning and launching a computer club, which will begin on March 27 during lunchtimes. This club will focus on developing coding and problem-solving skills, providing pupils with valuable opportunities to enhance their digital competence in a supportive and fun setting. Their enthusiasm and commitment to promoting digital learning is making a positive impact across the school, and their efforts should be highly commended.





Y CRIW CYMRAEG *THE WELSH CREW*

Mae'r Criw Cymraeg wedi bod wrthi'n brysur iawn ers ein cyfarfod â'r Llywodraethwyr ym mis Ionawr. Ail ddechreuwyd y gystadleuaeth Duolingo i rieni i hybu dysgu'r iaith, gyda'r pwyslais y tro yma ar gymryd rhan a rhoi cynnig arni, yn hytrach na chymharu sgôr misol. Gwnaed y penderfyniad hyn yn dilyn trafodaeth gydag ambell riant oedd yn ei gweld yn anodd i gyrraedd sgôr uchel bob mis ac felly'n colli'r awydd i gymryd rhan yn y gystadleuaeth. Mae mwy o rieni wedi bod yn cystadlu nawr o gymharu â'r llynedd (rydyn yn gofyn iddynt anfon sgrinlun o un wers Gymraeg maent wedi ei chwblhau ar Duolingo). Tynnir un enw allan o focs felly bod y siawns o ennill yn gyfartal. Cyhoeddir enw'r enillydd ar gyfrif Instagram yr ysgol bob mis ac maent yn ennill gwobr o gynnyrch Cymreig megis Bara Brith, pice ar y maen, Wafflau Tregroes.

Trafodwyd y syniad o gael her misol i hybu'r defnydd o'r iaith yn y cartref a'r gymuned, ac felly gosodwyd yr her gyntaf ym mis Chwefror i greu rhestr chwarae o 5 cân Gymraeg. Tynnwyd enw allan o focs i ddewis yr enillydd a chyhoeddwyd enw'r enillydd ar Instagram.



Rydym wedi creu cyfrif Spotify ar gyfer y Criw Cymraeg ac wedi creu rhestr chwarae "YGGG Llantrisant Trac yr Wythnos" ble gall unrhyw aelod o'r cyhoedd wrando ar ein rhestr chwarae. Rydym yn gofyn i blant blynyddoedd 3-6 wrando ar ddwy gân er mwyn dewis beth fydd Trac yr Wythnos yr wythnos ganlynol. Y gobaith yw y bydd mwy o blant yr ysgol yn gwrando ar gerddoriaeth Gymraeg, gan fod yr holiadur a lenwyd tymor diwethaf yn dangos nad oes llawer o blant yn gwrando ar gerddoriaeth Gymraeg yn gyson.



Mae Patrwm Iaith yr Wythnos yn cael ei gyhoeddi yn ddwyieithog ar Instagram bob wythnos i helpu rhieni sydd ddim yn siarad Cymraeg.

Erbyn hyn, sefydlwyd gyfeiriad ebost penodol ar gyfer y Criw Cymraeg er mwyn derbyn ceisiadau am gystadlaethau Duolingo a her y mis, ac mae'r Criw Cymraeg yn anfon ebost yn wythnosol at bob dosbarth i gyhoeddi Trac yr Wythnos a Phatrwm Iaith yr Wythnos.

Rydym wedi derbyn ebost gan athrawes o Ysgol Penygawsi gan eu bod yn gweithio tuag at Wobr Arian y Siarter Iaith. Maent wedi gofyn os hoffai ein hysgol greu cysylltiad â nhw a rydym wedi cytuno i gydweithio â nhw. Byddwn yn trafod gweithgareddau posib o fewn yr wythnos, gan anelu at ddechrau'r prosiect yn nhymor yr haf.



The Criw Cymraeg has been very busy since our meeting with the Governors in January. The Duolingo competition for parents has been restarted to promote learning the language, with the emphasis this time on taking part and gifing it a go, rather than comparing monthly scores. This decision was made following a discussion with some parents who found it difficult to reach a high score every month and therefore lost the desire to take part in the competition. More parents have been competing now compared to last year (we ask them to send a screenshot of one Welsh lesson they have completed on Duolingo). One name is drawn from a box so the chances of winning are equal. The name of the winner is announced on the school's Instagram account every month and they win a prize which Welsh produce such as Bara Brith, Welsh cakes, Tregroes Waffles.

The idea of having a monthly challenge to promote the use of the language in the home and community was discussed, and so the first challenge was set in February to create a playlist of 5 Welsh songs. A name was drawn to choose the winner and the winner's name was announced on Instagram.

We have created a Spotify account for the Criw Cymraeg and have created a playlist "YGGG Llantrisant Track of the Week" where any member of the public can listen to our playlist. We then ask children in years 3-6 to listen to two songs in order to choose what the Track of the Week will be the following week. The hope is that more children at the school will listen to Welsh music, as the questionnaire filled out last term shows that not many children listen to Welsh music regularly.

The Language Pattern of the Week is published bilingually on Instagram every week to help parents who do not speak Welsh.

By now, a specific email address has been established for the Criw Cymraeg in order to receive applications for Duolingo competitions and the monthly challenge, and the Criw Cymraeg send a weekly email to each class to inform them of the Track of the Week and the Language Pattern of the Week.

We have received an email from a teacher from Ysgol Penygawsi as they are working towards the Language Charter Silver Award, and they have asked if our school would like to collaborate on a project. We have agreed to work with them and will discuss possible activities in the next week or so, aiming to begin the project in the summer term.